# This is to Certify

that Mr. Giraldus Jones

late Student of the Congregational Memorial College, Brecon, has been solemnly set apart this day for the work of the Christian Ministry at Ffaldybrenin and Esgairdawe in the County of Carmarthen in the manner observed by Churches of the Congregational Order.

D. Harford Evans Burry Port — Llywydd.
Thos Lewis, Memorial College Brecon
Ben. Davies (Pant-teg), Undeb.
Arthur Jones. Pant-teg. Ystalyfera.
Ben Davies Severn Rd Cardiff.
David James. Rhydybont.
Morgan Griffiths ~~[illegible]~~ Llanybyther
David Williams, Lampeter
D. J. Moses, Saron Ystradgynlais
J. Ewing Davies Llandeilo.
William Rhys Bowen Sardis Glais
S. Gwynnefin Davies Cynghordy.
D. Morris Jones Capel Isaac

H. J. Lewis — Bethel & Carmel.
Ed Morgan — Glasynwys
T. G. Rees — Abergorlech
Thomas Davies — Horeb

October 25th 1928

garu y byd presennol. Luc yn unig sydd gyd â mi. Cymer Marc, a dwg gyd â thi; canys bywiol yw efe i mi i'r weinidogaeth.

Iago, 1 : 22 — A byddwch wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawyr yn unig, gan eich twyllo eich hunain.

Philipiaid: 2 : 14 — Gwnewch bob dim heb rwgnach ac ymddadlau.

Hebreaid, 11 : 10 — Canys disgwyl yr ydym am ddinas ag iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw.

Hoffai bregethu ar destunau o'r Hen Destament yn oedfa'r bore a'r prynhawn. Daeth yr hen frenhinoedd a'r proffwydi yn fyw o flaen ein llygaid. Pethau cyfarwydd i ni oedd rhosydd Moab a chedrwydd Libanus. Ceid 'sŵn ym mrig y morwydd' yn fynych hefyd. Ei arferiad mewn oedfaon hwyrol, ambell dymor, oedd dilyn ymlaen drwy un o'r Efengylau. Cafwyd cyfle i ddod yn gyfarwydd â'r damhegion, y gwyrthiau a'r holl hanesion diddorol am Iesu.

Yn aml, byddai'n troi i Lyfr y Diarhebion am destun pregeth angladdol:

> Canys yr oeddwn yn fab i'm tad, yn dyner ac yn annwyl yng ngolwg fy mam.
> Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.
> Gwraig rymus sydd goron i'w gŵr.
> Nac ymffrostia o'r dydd yfory: canys ni wyddost beth a ddigwydd mewn diwrnod.
> Pwy a fedr gael gwraig rinweddol? gwerthfawrocach yw hi na'r carbuncl.
> Hi a graffa ar ffyrdd tylwyth ei thŷ: ac ni fwyty fara seguryd.
> Llawer merch a weithiodd yn rymus; ond ti a ragoraist arnynt oll.

Bu Giraldus Jones yn fugail gofalus hefyd, yn cydlawenhau gyda'r llon ac yn dwyn beichiau'r lleddf a'r trallodus. Isel oedd ei gyflog o'i chymharu â safonau heddiw, ond ni fu'n cwyno erioed, – 'Dwyn ei geiniog heb gwynaw'. Cymerai ddiddordeb arbennig ym mhethau allanol yr eglwys. Credai mewn 'pwyth yn ei bryd' pan fyddai angen am hynny, a phrofodd ei hun yn gasglwr penigamp droeon.

Mae'n ofynnol i weinidog gael cydweithwyr o fewn y Winllan.

Wrth edrych yn ôl, cofir fod yma rai a oedd yn dra ffyddlon ar ddechrau ei weinidogaeth ef. Tri diacon oedd yma ym 1928, sef John Morgan, Tanffordd; Abel Thomas, Bryndifyr a Thomas Thomas, Maesteile – diaconiaid a wyddai'r ffordd i annerch gorsedd gras ac yn hyddysg yng ngwirioneddau'r Gair.

Er bod y tri diacon y cyfeiriwyd atynt yn bur wahanol i'w gilydd, 'roeddent yn deyrngar i'w gweinidog ac i'r Achos. Gwyddent yr un adnod a byddent yn ei byw hefyd, –

'Sêl Dy Dŷ Di a'm hysodd i.'

> Diddorol iawn a fyddai ceisio elfennu eu cymeriadau ... buont yn ymarhous iawn wrth ddyn ieuanc breuddwydiol. Oni ddaethant i gysylltiad a breuddwydwyr gweinidogaethol o'r blaen? ... buont yn oddefgar a thadol hyd y diwedd.[16]

Nid yn anaml y clywid Thomas Thomas, Maesteile, y trysorydd, yn dweud wrth y gweinidog tua diwedd blwyddyn, "Ma' 'isie i chi ga'l 'bonus' bach 'da ni nawr 'to".

Yn ystod haf, 1935, bu farw Mrs. Henry Jones, gweddw'r Parchedig Henry Jones. Ar ôl ei marwolaeth hi, daeth Maesybedw, lle trigai, yn eiddo Ymddiriedolwyr Eglwys Ffaldybrenin. Fe'i gadawyd iddynt yn ôl ewyllys Mr. a Mrs. Williams, Maesyderi. Bu hyn yn rhwyddineb mawr. Symudodd y Parchedig a Mrs. Giraldus Jones o Rosybedw i Faesybedw, ychydig gamau'n nes at y capel. Bu'n gartref i'r gweinidog hyd ei farwolaeth ym 1978.

Yn y pedwar a'r pumdegau, 'roedd pobl ifainc yn Esgairdawe y gallai unrhyw weinidog fod yn falch ohonynt. Manteisiodd Giraldus Jones ar y cyfle i'w hyfforddi. Gofalai am yr 'ŵyn' drwy gynnal Cwrdd Plant cyn oedfa'r hwyr a rhoi parti iddynt ar ddiwedd tymor. Cafwyd llawer o hwyl a blas ar y Gymdeithas Ddiwylliadol a'r gweinidog yn paratoi nosweithiau diddorol ac adeiladol. Perfformwyd ambell ddrama fer gyda brwdfrydedd. Dysgwyd mai annoeth yw rhoi gormod o bwys ar eiriau bob amser – bod saib ac ystum yn bwysig ac effeithiol. Medrai Giraldus Jones siarad llawer â'i lygaid craff.

Er i rai gweithgareddau newydd gael eu ffurfio yn y cyfnod hwn, diflannodd ambell un arall –

> Loes i ni yw gorfod cofnodi tranc y Cwrdd Gweddi wythnosol. Ni fu fawr lewyrch arno wedi i'r hen ddiaconiaid gefnu ... Buasai atgyfodi'r Cwrdd Gweddi yn goffa priodol iawn i lafurwyr y gorffennol.[17]

Gyda threigl amser a lleihad yn nifer yr aelodau, diflannodd Cwrdd Gweddi nos Sul ac ar ddechrau blwyddyn hefyd.

Cyrhaeddwyd carreg filltir arbennig yng ngweinidogaeth Giraldus Jones ym 1949, sef un mlynedd ar hugain o wasanaeth. Penderfynwyd dathlu'r achlysur. Bu Joshua Jones, un o'r diaconiaid, yn casglu tuag at Dysteb i'r Gweinidog a'i briod. Dyma'r 'pennill casglu' a gyfansoddwyd gan Josi:

> Hynny roddwch, rhowch yn ufudd,
> Peidiwch dangos arlliw'r cybydd;
> Un-ar-hugain o wasanaeth
> Roddodd Jones yn serchog odiaeth,
> Peidiwn, heddiw, droi ein cefnau
> Ar y cyfle i'w gofio yntau.[18]

Ar Ionawr 13eg, 1950, cafwyd gwledd yn y Festri, cyngerdd a theyrngedau yn y capel. Cyflwynwyd rhodd, sef 'Silver Tea Set' i Mrs. Jones a siec i'r Parchedig Giraldus Jones. Mae'n debyg mai dau Sul yn unig a gollodd yn ystod yr un mlynedd ar hugain hyn – un pan oedd yn glaf a'r Sul pan fu farw ei dad.

Dathlwyd tri chanmlwyddiant Ymneilltuaeth ym 1962. Dyma'r hyn a ddywedodd y Parchedig Giraldus Jones mewn anerchiad yn yr Adroddiad y flwyddyn honno:

> 'Cawsom y fraint o feddwl a chofio am wrhydri ein hynafiaid Ymneilltuol, pa rai a fynasant addoli eu Duw yn eu dullwedd eu hunain ym 1662. Dioddefasant ddirmyg, gwawd a chosbau am hyn. Er hynny, gadawsant i ni Etifeddiaeth Deg.'

Manteisiwyd ar y cyfle i gyfarch y gweinidog hwn ar ei ben blwydd yn bedwar ugain oed ar Fedi'r 12fed, 1975. Cyflwynwyd rhodd ariannol iddo yn ei gartref, ar ran aelodau'r eglwys gan y trysorydd, D.L. Jones a'r ysgrifenyddes, M.E. Williams.

Roedd elfen o hiwmor direidus yn perthyn i Giraldus Jones. Ni wisgai goler gron a chan fod ganddo glust hynod fain gallai ddal ambell ymgom yn ddiarwybod i bobl eraill. Cyn cyrraedd hanner canrif yn y weinidogaeth, cafodd gyfle i roi ei hanes mewn sgwrs ar y teledu, yng nghwmni Emyr Daniel. Gwnaeth hynny'n ddeheuig heb gymorth unrhyw sgript, gan draethu ei atgofion yn fyw a diddorol. Un o raglenni'r gyfres 'Bod' ar y BBC ydoedd. Fe'i darlledwyd ar Dachwedd 21ain, 1976. Cyflwynodd Emyr Daniel y Parchedig Giraldus Jones fel 'gweinidog cefn gwlad, yn gweinidogaethu yn Esgairdawe a Ffaldybrenin, ym mher-

feddion sir Gâr . . . bro D.J. a bro Wil Ifan'. Ar ddechrau'r rhaglen, darllenodd Giraldus Jones delyneg Wil Ifan, – 'Hiraeth am Ffaldybrenin'.

'Slawer dydd, pan grwydrai merlyn
  Wedi cymryd rhaff,
Rhoed ef, hyd nes cael ei berchen
  Yn y ffald yn saff.
Neu pan gaffai'r bugail ddafad
  Ddieithr gyda'i stoc,
Gyrrid hithau i ffald y brenin
  At y merlyn broc.

Ar ddisberod y bûm innau
  Fel y ddafad ffôl;
Crwydrais holl aceri Cymru
  Hyd fryn a dôl.
Boddlon fyddwn pe doi rhywun
  O'r hen ardal dlos
I'm rhoi innau'n Ffaldybrenin
  Cyn delo'r nos.

Bu tad Wil Ifan yn byw yn yr ardal, a dyna pam y dymunai, yn ei gerdd, i gael ei gyrchu yno. Yn ôl Giraldus, dyn swil oedd Wil Ifan a chanddo hiwmor cudd. Roedd yn dda am gydnabod ei dylwyth. Deuai i'r angladdau, ac un tro, cafodd ei gario yn yr hers gwag i Lambed i weld y Parchedig T. Eirug Davies. Ymddangosodd hanes y daith yn y papur dyddiol drannoeth! Cymro gwir oedd Wil Ifan ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes gyda'r Saeson.

Daeth Giraldus allan o'r Coleg ym 1928 fel dyn heb alwad. Roedd Eglwys Crug-y-bar yn wag ar y pryd, ac, ar gais Prifathro Aberhonddu, aeth yno am Sul. Pan oedd ar ddisgyn o'r bws ger Crug-y-bar, cydiodd merch ifanc yn ei got a gofynnodd, "Stiwdent y'ch chi?" Yntau'n ateb yn gadarnhaol, ac ar ei chais, yn rhoi ei enw iddi ynghyd ag enw'r coleg. "Ma' eisie gweinidog arno'ni yn Eglwysi Ffaldybrenin ac Esgairdawe," meddai. "Ffeindia i Sul i chi." Mynnodd gael Sul iddo ac fe gafodd alwad yn fuan i'r eglwysi. "Mae'r wraig yma o hyd," meddai'r gweinidog, "a phan fydd rhywbeth yn digwydd, bydda' i'n dweud, 'Gwyliwch chi beth chi'n ddweud. Chi dda'th â fi 'ma'."

Aeth ymlaen i sôn amdano'i hun fel "dyn mawr . . . mewn meddwl" pan ddaeth i'r ardal. Arferai ddefnyddio peth Saesneg

yn y pulpud, hyd nes i'r diaconiaid ei wahardd a dweud ei bod yn well ganddynt glywed y cyfan yn y Gymraeg. Dysgodd y gweinidog wers. Gadawodd yr 'iaith fain' a glynodd wrth iaith ei fam.

Cafodd ei dywys i'r weinidogaeth gan ei deulu, ond, ei weinidog, y Parchedig Ben Davies a gafodd y dylanwad mwyaf arno. Daeth ef i Bant-teg, Ystalyfera cyn geni Giraldus. Un difrifol a digalon ydoedd, heb lawer o hiwmor, ond hoffai ambell ergyd. Dyma fel y dywedodd Giraldus stori a glywodd gan Ben Davies am un o'i ymweliadau cyntaf â'i aelodau yn fuan wedi dod i'r ardal:

> Roedd Ben wedi mynd i ymweled â'r teulu arbennig yma – mynd i weld 'r hen wraig o'dd byth yn dod i'r cwrdd. Wedi agor y drws, cnocio . . . a mynd i mewn i'r gegin. Medde Ben Davies, "Odych mam yn tŷ, Mary?" "Nâg yw," medde hi, "ma' mam wedi mynd i siop." Ac ar yr aelwyd, wrth y tân, o'dd peth ma' nhw'n galw yn 'horse' dillad; ag o'dd Ben yn gallu gweld y 'sgidie dan yr 'horse'. "Mary fach," medde fe, "gwedwch wrth eich mam mod i wedi galw, a gwedwch wrthi am fynd â'i thra'd 'da hi pan fydd hi'n mynd i siopa nesa."[19]

Yn ystod y rhaglen, cyfeiriodd Giraldus Jones, droeon, at gyfaill cywir iddo, sef y Parchedig T. Eirug Davies, Llambed, yntau'n gyfaill hefyd i'r Parchedig Ben Davies. Rhannai Ben ac Eirug yr un profiadau. Magwyd y ddau mewn cyfnod ac ardaloedd tebyg i'w gilydd, sef y Mynydd Du a Gwernogle, – Ben yn claddu mab ac Eirug a'i briod yn dioddef afiechyd am flynyddoedd. Roedd mawredd yn perthyn i'r ddau a dwyster wedi deillio o'u bywyd personol. Ar brydiau, ceid ambell don o hiwmor ganddynt ond gellid synhwyro bod haen o dristwch o dan y cyfan. Teimlai Giraldus bod cysylltiad agosach rhyngddo ef â Ben ac Eirug, yn eu dydd, nag eiddo neb arall.

Ymwelodd Giraldus ac Emyr ag Esgairdawe, gan gyfeirio at D.J. Williams â'i wreiddiau yn ddwfn yn y fro. Credai'r blaenaf fod teimladau D.J. tuag at y capel a'r ardal yn ddyfnach nag a feddyliai llawer un, oherwydd ei fam a'i thylwyth. Deuai D.J. yn ôl i chwilio ym ysbrydoliaeth. Credai fod bywyd yn rhy garlamus a balm iddo oedd dychwelyd a gweld yr 'Hen Dŷ Ffarm' o ddrws y capel. Soniodd Giraldus am yr hyn a geir yn ei lyfr, 'Y Bod Cenhedlig', – "Po bella' i gyd yr â dyn oddi wrth ei wreiddiau, pella' i gyd y mae'n mynd oddi wrth y gwir

wareiddiad". Credai y cytunai Wil Ifan, Ben ac Eirug ag ef oherwydd golygai perthynas â bro gymaint iddynt hwythau.

Tybiai'r gweinidog hwn fod y profiad a gafodd wrth fyw ymhlith gwahanol fathau o bobl, yn ardal ei febyd ac ardal ei ofalaeth, wedi cyfoethogi ei fywyd i'r fath raddau nes ei alluogi i aros cyhyd yn ei unig faes. Cafodd iechyd da a mwynhaodd gymdeithas ei bobl am gyfnod maith. Dyma'i broffwydoliaeth am ddyfodol ei ofalaeth:

> Mae'n debyg mai dyma'r gweinidog olaf a fydd yma, yn y ddwy eglwys hyn. Fe fydd yn rhaid rhannu gweinidogion. Mae hwnna gan Mr. Eirug Davies yn ei awgrymiadau, y daw 'na gyfnod pan fydd gweinidogion yn brin, yr eglwysi'n mynd yn llai a'r cwbl wedyn, o'r diwedd, yn troi i gyfeiriad y gorau.[20]

Tystiolaethai fod ganddo gymaint o ffydd a gobaith ar ddiwedd ei yrfa ag a oedd ganddo ym 1928. Dywedodd mai'r hyn a roddodd fwya' o lawenydd iddo oedd cael rhannu profiadau ag eraill a gwybod fod croeso iddo ymhob tŷ yn y fro, nid yn unig gan ei aelodau. Medrai wynebu dyddiau cyfyng, anodd a thywyll drwy gael ysbrydiaeth wrth feddwl am Wil Ifan, Ben ac Eirug.

Yn naturiol, gorffennodd y gweinidog hwn ei sylwadau drwy ddyfynnu adnod o'r Ysgrythur:

> Fe fûm yn ieuanc ac yr ydwyf yn hen. Eto, ni welais y cyfiawn wedi ei adu na'i had yn cardota bara.

Rhydd ymateb Giraldus Jones i ofyniadau Emyr Daniel gipolwg i ni ar ei feddylfryd a'i dueddiadau.

Dynes ddiwyd a charedig oedd Mrs. Giraldus Jones, yn ddoeth a heddychol fel gwraig gweinidog, heb ddangos unrhyw ffafriaeth yn ei hymwneud ag aelodau'r ofalaeth. Magasant ddwy ferch, sef Dilys a Beti. Cofir am ffyddlondeb a chefnogaeth Mrs. Jones i'r Achos yn Esgairdawe. Ergyd drom i'r gweinidog a'i deulu oedd ei cholli yng Ngorffennaf, 1977 a hwythau ill dau wedi dathlu eu priodas ddiemwnt ychydig cyn hynny.

Ym mis Hydref, 1978, bwriadodd y ddwy eglwys ddathlu a chyflwyno Tysteb i'w gweinidog ar ôl hanner canrif o wasanaeth. Gwireddwyd dymuniad aelodau Ffaldybrenin pan gynhaliwyd Cyfarfod Llongyfarch ar Hydref 5ed. Gwaetha'r modd, ni ddaeth bwriadau Eglwys Esgairdawe i ben ar Hydref



*Y Parchedig a Mrs. Giraldus Jones*

24ain, oherwydd, yn y cyfamser, cymerwyd y gweinidog yn sâl. Wedi treulio rhai wythnosau mewn ysbyty, hunodd ar Ragfyr 3ydd, 1978 yn bedwar ugain a thair mlwydd oed.

Buddiol, felly, yw rhoi ychydig o hanes y dathlu yn Ffaldybrenin. Ar y prynhawn Mercher hwnnw, ddechrau mis Hydref, ymdeithiodd tyrfa luosog, yn cynnwys aelodau'r ddwy eglwys, cyfeillion ac edmygwyr i'r Ffald i dalu teyrnged i'r efengylwr a ddaeth o Gwm Tawe hanner canrif cyn hynny. Llywyddwyd oedfa'r prynhawn gan un o blant Ffaldybrenin – y Parchedig D. Edmund Williams, gynt o Bontyberem. Cafwyd gair o werthfawrogiad gan y Parchedigion Ifan Wyn Evans, Soar; Howell Evans, Pumsaint; Aeron Morgan, Ficer y plwyf; yr Athro D.L. Trevor Evans; Canon D.R. Evans; Mair Harford, sef Mair Tysul Jones, merch y diweddar Barchedig D. Harford Evans, un a godwyd yn Ffaldybrenin; Annie Davies, ar ran yr eglwys; Elwyn Jones, Rhydybont ac ysgrifenyddes Esgairdawe, Mary Eunice Williams.

Hyfrydwch oedd cael presenoldeb y merched, sef Dilys, a oedd yn nyrs yn Llanybydder, a Beti, a fu am gyfnod ym Melfast ac ar fin ymsefydlu yn Aberystwyth, lle penodwyd ei phriod, Dr. Gareth Owen yn Brifathro Coleg y Brifysgol.

Fel cydnabyddiaeth o'i lafur diflino, cyflwynwyd siec sylweddol i'r Parchedig Giraldus Jones gan Mrs. Griffiths, Brynbrân. Cafwyd cwmni'r Parchedig T. Glenville Rees, Llansawel yn oedfa'r hwyr, yntau'n nai i'r Parchedig Giraldus Jones. Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal y Parchedig Ifan Wyn Evans, Soar a phregethwyd gan y Parchedig Dan Ifan Davies, Trimsaran, sef ŵyr i'r Parchedig Dan Evans, gynt o Hawen a Bryngwenith, a godwyd yn Ffaldybrenin. Arweiniwyd y gân gan Titus Griffiths a Dewi Williams, gyda Kitty Williams wrth yr organ.

Ond, fel y cyfeiriwyd eisoes, newidiwyd y cyweirnod ymhen amser byr. Ar Ionawr 21ain, 1979, cynhaliwyd Cwrdd Coffa yn Ffaldybrenin, gyda'r Parchedig William Davies, Castell Newydd Emlyn yn talu teyrnged i'r diweddar Giraldus Jones ar y testun, "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efengylu". Yna, ar Hydref 5ed, 1980, unodd aelodau a chyfeillion yng Nghapel Esgairdawe i'w goffáu. Gwahanol iawn oedd y teimladau o'u cymharu â'r hyn oeddent ym mis Hydref, 1928. Llywyddwyd yr oedfa gan D.T. Evans, Cwmann,

BUCKINGHAM PALACE

1st September, 1978

Dear Mrs. Williams.

Thank you for your letter of 29th August about the Reverend Giraldus Jones. I have laid your letter before The Queen who was most interested to read that the Reverend Jones will have completed 50 years as Minister of Ffaldybrenin on 24th October 1978. Her Majesty sends her best wishes to all members of the congregation for this happy occasion.

Yours sincerely

Anne Wall

Mrs. M.E. Williams.


un â'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parchedig D.J. Goronwy Evans, Llambed. Darllenodd y llywydd deyrngedau o atgofion yr Athro Dewi Eirug Davies, y Parchedig D. Morlais Jones a'r Parchedig I. Wyn Evans, ar ran aelodau Soar a Bethel.

Canolbwyntiodd D.T. Evans ei deyrnged ar dri phennawd:

a. ei ddawn i estyn cydymdeimlad
b. ei ddawn i lawenhau
c. ei ddawn i fod yn ostyngedig

Seiliodd y Parchedig Goronwy Evans ei sylwadau ar y canlynol:

a. ei gyfeillgarwch
b. ei frawdgarwch
c. ei hiwmor
ch. ei wasanaeth i gymdeithas
d. ei ffydd gadarn, gref




*Y Maen Coffa*

Dadorchuddiwyd y Maen Coffa i'w rhieni gan Dilys a Beti, a dymunol oedd gweld Mrs. May Rees, Caerdydd a Miss Menna Jones, Ystalyfera yn bresennol (chwiorydd Giraldus Jones). Gwnaed y Maen gan Dennis Jones, Cerflunydd o Lanybydder.

**Cyfnod anodd heb fugail**

Profiad dieithr i aelodau'r ddwy eglwys oedd bod heb weinidog

am bum mlynedd. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd oddi ar sefydlu Owen Davies ym 1743. Cafwyd nerth o'r gorffennol i ddyfalbarhau. Bu'r eglwys yn ffodus i gael gwasanaeth gweinidogion a lleygwyr i'w harwain, ond yr un a roes iddi wasanaeth cyson, diflino yn y cyfnod hwn oedd Mr. D.T. Evans, Cwmann. Ganed ef yn Lanlas Fawr, Cellan, yn fab i Walter Evans, Blaengofuarth, Esgairdawe a Hannah, ei briod. Fe'i bedyddiwyd gan D. Myddfai Thomas. Bu'r teulu yn cadw Siop Pentrefelin, Cellan am flynyddoedd. Ym 1935, aeth D.T. Evans i Lundain, gan ymaelodi yn Eglwys Radnor Walk ym 1936. Etholwyd ef yn ddiacon ym 1946 a bu'n ffyddlon a gweithgar yno hyd nes iddo ddychwelyd i Gymru ym 1976, gan ymgartrefu yn Llys Helen, Cwmann. Mae'n aelod ac yn ddiacon yng Nghapel Erw, Cellan, a bu'n cyflawni gwasanaeth pregethwr lleyg yn y fro. Roedd galw mawr am ei gymorth a bu eglwys Esgairdawe yn ffodus iawn ohono, oherwydd bu'n gweinyddu'r Cymun yno ar o leia' dri Sul ar hugain yn y cyfnod hwn. Dyma'r hyn a ddywedai wrth yr ysgrifenyddes, "Os na allwch chi ga'l pregethwr, fe ddo' i atoch chi". Gwelir y cofnod hwn am y Sul, Rhagfyr 21ain, 1980: 'Cymundeb ola'r flwyddyn, gyda'r cymwynaswr, D.T. Evans yn gwasanaethu'.
Priodol, felly, yw cofnodi'r emyn canlynol o'i waith:

**Emyn (Y Cymun)**

Arglwydd Iesu, gad i ni
Gofio aberth Calfari,
Am Dy farw ar y pren
Ar y ffordd i'r nefoedd wen:
Rhoist Dy Hun dros blant y llawr,
Am fod cariad Duw mor fawr,
Ninnau, wrth y bwrdd a gawn
Ddiolch â chalonnau llawn.

Mae rhyfeddod gwyrth y groes
Yn rhoi bywyd i bob oes,
Tynnwyd ymaith ofnau'r bedd,
Rhoddaist gysur in' a hedd:
Ti, O! Grist a fynnwn ni
Ei goffáu, a neb ond Ti,
Ac wrth gofio, diolch wnawn
Am y bythol fywyd gawn.

Ar achlysuron megis priodas ac angladd, cafwyd gwasanaeth diffuant a gwerthfawr y Parchedig T. Glenville Rees, Llansawel.


Bu cymorth y ddau yma yn amhrisiadwy.

Ym 1980, derbyniwyd gwahoddiad i ymuno ag Eglwysi Soar, Llambed a Bethel, Parcyrhos, ac ymatebwyd yn gadarnhaol. Bu nifer o weinidogion ar brawf yn yr ofalaeth, ac ym 1983, rhoddwyd galwad i'r Parchedig Athro Guto Prys ap Gwynfor. Llawenydd i bawb oedd clywed y newyddion da ei fod wedi penderfynu derbyn yr alwad ac edrychwyd ymlaen yn hyderus at ddechrau pennod newydd.

**Guto Prys ap Gwynfor**

Ganed Guto Prys ym 1948 a maged ef ar fferm Wernellin, Llangadog cyn symud i'r Dalar Wen pan oedd yn bum mlwydd oed. Pedwerydd plentyn Gwynfor a Rhiannon Evans ydyw. Mae gwreiddiau ei dad yn ddwfn yn Llangadog, er iddo gael ei fagu yn y Barri. Un o Lerpwl yw ei fam, ond â'i gwreiddiau yn Llanuwchlyn, Meirionnydd a Llannerch-y-medd, Ynys Môn. Aeth Guto i'r ysgol gynradd yn Llangadog ac yna i Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri. Wedi ymadael â'r ysgol bu am flwyddyn ar wasanaeth gwirfoddol tramor, yn ynysoedd y Falkland, (neu'r Malvinas) yn Ne America. Bu yno fel athro cylchdeithiol yn dysgu plant y ffermdai anghysbell ar eu haelwydydd. Manteisiodd ar y cyfle i ymweld â Phatagonia cyn dychwelyd i Gymru.

Wedi dychwelyd, mynychodd Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth, lle bu'n astudio'r Gyfraith. Ar ôl graddio gydag anrhydedd bu'n gweithio ar y tir am gyfnod cyn troi ei law at alwedigaethau eraill fel pysgota ar y Fenai a llyfrgellyddiaeth. Ym 1974, profodd newid sylfaenol yn ei fywyd. Teimlodd ei fod yn cael ei alw i'r weinidogaeth Gristnogol. Aeth i'r Coleg Coffa yn Abertawe i astudio Diwinyddiaeth a pharatoi ar gyfer y weinidogaeth. Ym 1977, graddiodd gydag anrhydedd eto, a derbyniodd alwad i Bencader ac Alltwalis. Wedi iddo ef a'i deulu symud yno treuliodd flynyddoedd llawen yn y fro honno. Ym 1980, gydag ymddeoliad y Prifathro Pennar Davies o'r Coleg Coffa, a oedd bellach yn Aberystwyth, penodwyd ef yn Athro Hanes yr Eglwys yn y sefydliad hwnnw. Ym 1981, symudodd i Dal-y-bont a'r Borth i ofalu am yr eglwysi a darlithio yn y Coleg. Ym 1983, derbyniodd alwad i wasanaethu yn eglwysi Soar, Llanbedr Pont Steffan; Bethel, Parc-y-rhos; Ffaldybrenin ac Esgairdawe. Dechreuodd yno ar ddydd calan, 1984.



*Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor*

Mae'n briod â Siân Richards, brodor o Fethlehem, Dyffryn Ceidrych ac y mae ganddynt ddau o blant – Lluan Heledd a Rhodri Mabon. Cyhoeddwyd llyfryn o'i eiddo, sef *'Y Groesffordd'* ym 1984, bu'n cydolygu'r *'Tyst'* am ddwy flynedd ac fe gyhoeddir nifer o erthyglau o'i waith mewn gwahanol gylchgronau.

Agorwyd y gyfres o Gyfarfodydd Sefydlu Guto Prys ap Gwynfor yn Esgairdawe ar brynhawn, Mawrth, Ionawr 17eg,

1984 gydag oedfa bregethu. Dyma'r rhai a fu'n cymryd rhan:

| | |
|---|---|
| Llywydd | – D.T. Evans, Cwm-ann |
| Galwad i Addoli | – Idwal Evans, Abergorlech |
| Darllen | – Olaf Davies, Llanybydder |
| Gweddi | – Morlais Jones. Cellan |
| Pregeth | – Glenville Rees, Llansawel |

Gwnaed casgliad teilwng o £40.00, ac yn ôl dymuniad y gweinidog newydd, fe'i anfonwyd i'r Coleg Coffa yn Aberystwyth. Yn yr hwyr, aeth rhai o'r aelodau i'r oedfa bregethu ym Methel. Pregethwyd gan Gareth Thomas, Clydach, un o blant Llangadog.

Prynhawn drannoeth, llywyddwyd y Cwrdd Sefydlu gan gyn-weinidog Soar a Bethel, Ifan Wyn Evans, Penybont-ar-Ogwr, gyda'r canlynol yn cymryd rhan:

| | |
|---|---|
| Galwad i Addoli | – Thomas Eirwyn Evans, Aberhonddu |
| Darllen | – Moelwyn Daniel, Rhuthun |
| Gweddi | – Cyril Williams, Cwm-ann |
| Urddo | – Y Llywydd |
| Hanes yr Alwad | – Maldwyn Hughes, Soar |
| Gweddi'r Urddo | – T. Alwyn Williams, Llangadog |
| Siars i'r Gweinidog | – Pennar Davies, Abertawe |
| Siars i'r Eglwysi | – Dewi Eirug Davies, Coleg Coffa |
| Y Cyflwyno: | |
| Ar ran y Cyfundeb | – James Henry Jones, Beulah |
| Ar ran Bethel, Tal-y-bont | – Gwilym Jenkins |
| Ar ran y Morfa, Borth | – Nancy Hayes |
| Gair ar ran y Coleg | – D. Arthur Thomas, Betws Bledrws |
| Y Fendith | – Tim Morgan, Llambed |

Roedd nifer o aelodau Esgairdawe yn bresennol a hefyd yn yr oedfa bregethu yn Ffaldybrenin yn yr hwyr, pan bregethwyd gan Aled ap Gwynedd, Crymych. Cafwyd cyfres dda wrth ddechrau'r bennod newydd hon.

Gan fod gan y gweinidog newydd bedair eglwys yn ei ofalaeth, ni fedrai wasanaethu ymhob un ohonynt bob Sul. Felly, dyma'r drefn yn Esgairdawe, – dechrau gydag oedfa'r prynhawn; y Sul dilynol – oedfa'r hwyr; yna, oedfa'r bore a Sul gwag yn dilyn. Ailadroddid y patrwm hwn bob blwyddyn a phrofwyd ei fod yn llwyddiannus. Dyma'r tro cyntaf hefyd, mae'n debyg, i weinidog yr eglwys gyflawni swydd arall. Credwn,

er hynny, fod y gynulleidfa yn elwa ar y ffaith fod Guto yn darlithio ar 'Hanes yr Eglwys' yn y Coleg Coffa gan ein bod yn derbyn peth o'r addysg a gyfrennid ganddo yno.

Sylweddolwyd o'r cychwyn fod gan Guto ddawn arbennig i bregethu'r Efengyl, oherwydd ei ddiffuantrwydd angerddol a gwelwyd ei fod yn meddu ar argyhoeddiadau dwfn, gydag ôl paratoi trylwyr bob amser. Roedd ei bregethau'n amserol hefyd. Dyma enghreifftiau o rai testunau a gafwyd:

*Hydref 27ain, 1985* – (Yr wythnos flaenorol yn cael ei chyfrif fel 'Wythnos un Byd')
Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur.

Cafwyd yr ymdeimlad, o'r newydd, nad aelodau o gymdeithas fechan mewn ardal arbennig ydym; yn hytrach, aelodau o'r cyfanfyd mawr, sef 'Byd Duw', a bod pob un yn frodyr a chwiorydd i'n gilydd, pa beth bynnag yw lliw'r croen.

*Rhagfyr 7fed, 1986* Sul y Beibl
*Actau 8: 30, 31* — Rhedodd Philip ato (yr eunuch), a chlywodd ef yn darllen y proffwyd Eseia, ac meddai, 'A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?' Meddai yntau, 'Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo'.

*Mawrth 1af, 1987* Gŵyl Ddewi
*Eseia 5: 2, 3* — Gwinllan sydd i'm hanwylyd mewn bryn tra ffrwythlon; Ac efe a'i cloddiodd hi, ac a'i digaregodd, ac a'i plannodd o'r winwydden orau, ac a adeiladodd dŵr yn ei chanol, ac a drychodd win – wryf ynddi; ac efe a ddisgwyliodd iddi ddwyn grawnwin, hithau a ddug rawn gwylltion.

*Ebrill 5ed, 1987* — Trafod 'Memorandwm am ddyfodol eglwysi'r ofalaeth', gan y gweinidog. Dangosodd gryn weledigaeth. Cytunwyd bod angen mawr am wella presenoldeb yn yr oedfaon.

Mewn pwyllgor i ddiaconiaid yr eglwysi ar Ebrill 12fed, penderfynwyd cynnal 'Cwrdd Teuluol' ymhob eglwys. Cynhaliwyd y cwrdd hwn yn Esgairdawe ar Fai 24ain, 1987. Cafwyd ymateb pur dda ac oedfa ddymunol. Gresyn na fyddai'n esgor ar ffyddlondeb parhaol er mwyn rhoi ysbrydiaeth i bawb sy'n gweld crefydd ar drai yn ein gwlad.

*Ionawr 3ydd, 1988*
*Deut. 1:16* — Gwyliwch arnoch rhag twyllo eich calon, a chilio ohonoch, a gwasanaethu duwiau dieithr, ac ymgrymu iddynt.

*Ebrill 10fed, 1988*
*Exodus 23:9* — Paid â gorthrymu'r estron oherwydd fe wyddoch chwi beth yw bod yn estron am mai estroniaid fuoch yng ngwlad yr Aifft.

Pwrcaswyd deg o'r 'Beiblau Cymraeg Newydd' at wasanaeth yr eglwys. Defnyddiwyd hwy yn yr oedfaon. Dyma brofiad newydd o gyd-ddarllen Gair Duw mewn iaith ddealladwy.

*Ebrill 24ain, 1988* — Cyd-ddarllen rhan o'r wythfed bennod o Lyfr Jeremeia, – 'Pechod a Chosb', a'r gweinidog yn egluro'r gwirionedd.

Seiliwyd y bregeth ar 'Egwyddorion yr Annibynwyr'. Taflwyd llawer o oleuni ar ddaliadau'r Annibynwyr cynnar, ond sydd erbyn heddiw'n diflannu o un i un.

*Mawrth 26ain, 1989* Sul y Pasg.
*Ioan 20:17* — Iesu'n ymddangos i Fair Magdalen: Meddai Iesu wrthi, "Paid â glynu wrthyf oherwydd nid wyf eto wedi esgyn at y Tad. Ond dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, 'Yr wyf yn esgyn at fy Nhad i a'ch Duw chwi'."

Ar y Sul hwnnw, hysbysodd Guto aelodau'r eglwys o'i fwriad i ymuno â'r Genhadaeth Dramor – i wasanaethu fel cenhadwr o dan nawdd Cyngor Cenhadol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. O ganlyniad, cyfarfu pwyllgor bugeiliol yr ofalaeth yn Soar Llambed ar Fehefin y 4ydd. Derbyniwyd penderfyniad Guto a hysbysodd yr aelodau y byddai'n gorffen ei yrfa fel gweinidog yr eglwysi ddiwedd Medi.

Yn dilyn penderfyniad Guto a Siân ap Gwynfor, cynhaliwyd cyfarfod unigryw yn Soar, Llambed ar Fedi 27ain, 1989, i'w comisiynu yn genhadon yn Guyana. Fe'i trefnwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang. Llywydd y cyfarfod oedd y Parchedig Ioan W. Gruffydd, Abertawe, yr ysgrifennydd cenhadol. Rhoddwyd galwad i addoli gan y Parchedig Athro D. Elwyn Davies, Coleg yr Annibynwyr, Aberystwyth; y Parchedig Meurwyn Williams, Caerdydd a'r Parchedig T. Alwyn Williams, Llangadog. Roedd y comisiynu yng ngofal y Parchedig Athro W. Eifion Powell, Coleg yr Annibynwyr, a rhoddwyd tystiolaeth y teulu gan Guto a Siân. Dyma ddyfyniad o araith Guto:

> Nid yw mynd i Guyana yn golygu newid mewn galwedigaeth o gwbl. Maes ein llafur yn unig sy'n newid. Pan ddes yn aelod o Eglwys Iesu Grist yn y Profidens, Llangadog, fe dderbyniais yr alwad gan Dduw ar i mi fod yn genhadwr, er nad oeddwn yn llawn ymwybodol o hynny ar y pryd. Cenhadon ydym i gyd. Cenhadaeth yw sylfaen bodolaeth yr Eglwys. Cymdeithas wedi ei galw i genhadu yw hi gyda'r nod gosodedig o achub y byd.
>
> Cofiwch am Guyana yn eich gweddïau. Gallaf eich sicrhau y bydd aml i weddi yn Guyana yn ymbilio dros Gymru.[21]

Dyma ran o dystiolaeth Siân:

> Credaf ein bod ni sy'n perthyn i Eglwys Iesu Grist yma yng Nghymru, hefyd yn perthyn i'r Eglwys Fyd-eang. Nid uned ar wahân yw eglwys leol y perthynnwn iddi ond rhan o'r Eglwys Lân Gatholig. Credaf i Dduw yn Iesu ein creu i bwrpas arbennig iawn . . . Dagrau Canolbarth America yw ein dagrau ni. Poenau De Affrig yw ein poenau ni. Ac argyfwng Cymru yw eu hargyfwng hwy. Yr un yw'r frwydr ym mhob man, er ei fod yn cymryd arno ffyrdd gwahanol. A gwaith yr Eglwys yw uno yn y frwydr dros gyfiawnder a heddwch drwy'r byd.[22]

Gwlad dlawd yw Guyana – y dlota yn y byd, gyda phoblogaeth fechan. Amaethwyr yw'r rhan fwyaf o'r bobl. Ychydig iawn ohonynt sy'n berchen ar gyfleusterau fel ein heiddo ni. Felly, bydd yn newid mawr i'r cenhadon yma orfod byw heb deledu, peiriant golchi a rhewgell. Mae eu cartrefi'n hollol wahanol hefyd. Rhaid byw mewn tŷ pren wedi ei osod ar stilts yng ngorlifdir Guyana. Mae yno bob math o ymlusgiaid, gan gynnwys nadredd sy'n gallu dod i mewn i'r tai ac hyd yn oed i'r baddon. Mae'n ofynnol cysgu o dan rwydau mosgito er mwyn bod yn ddiogel. Problem arall yw ymgodymu â'r gwres llethol.

Gadawodd y teulu Gymru ar Chwefror 1af, 1990, ond, oherwydd rhesymau meddygol, bu raid iddynt ddychwelyd ymhen deufis. Wedi treulio cyfnod yma i atgyfnerthu, aeth Guto yn ôl i Guyana, ym mis Medi, i barhau gyda'r gwaith a ddechreuwyd ganddo yno. Yna, dychwelodd i Gymru a sefydlwyd ef yn weinidog Eglwys Annibynnol Hebron, Clydach ar Hydref 19eg, 1991.

**Hywel T. Jones**

Ganed Hywel Tomos Jones yng Nglasfryn Cwmgwili (Gwili'r Llwchwr), Llanelli, – unig fab Evan ac Irene Jones. Saer oedd ei dad, a hwnnw hefyd yn fab i saer, a oedd yn un o naw o fechgyn, a phob un ohonynt yn seiri ac yn blant i saer! Dyna record go dda o grefftwyr yng nghylch Cross Hands. Hannai teulu mam Hywel o ardal Llandysul. Tadcu ei mam oedd Tomos Thomas, Gwarffynnon, ger capel Pantdefaid, Prengwyn. Yn rhyfedd iawn, saer coed oedd hwnnw hefyd, ac y mae celfi o'i waith yn parhau i gael eu defnyddio yng nghartrefi'r fro.

Addysgwyd Hywel yn Ysgol Cwmgwili ac Ysgol Ramadeg y Gwendraeth. Yna, bu am gyfnod yng Ngholeg Trefecca cyn mynd i weithio yng Nglofa Blaenhirwaun. Ysgol brofiad oedd hon ynghyd ag ysgol wythnosol, undydd o dan nawdd Undeb Cenedlaethol y Glowyr. Wedi hynny, bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Coffa, Aberhonddu.

Yn ystod ei ieuenctid, mynychai Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngibea, Cwmgwili, ond, o ddewis personol, pan oedd tua ugain mlwydd oed, penderfynodd droi yn Annibynnwr, gan ymaelodi yn Eglwys yr Annibynwyr ym Mhenygroes, dan weinidogaeth y Parchedig Berian James.

Ar y chweched o Awst, 1955, ymbriododd â Moreena Griffiths, Foelgastell, ond yn enedigol o Lanymddyfri. Roedd hi'n Chwaer Eglwysig gyda'r Mudiad Ymosodol o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llwynhendy, Llanelli. Priodwyd hwy yng Nghapel Peniel, Foelgastell – Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae ganddynt ddau o blant, sef Myfanwy a Meurig.

'Rôl gorffen ei gwrs yn y Coleg Coffa, derbyniodd Hywel alwad o'r Eglwysi Annibynnol yn Hebron, Cymer a Sardis, Efailfach, Pontrhydyfen. Ordeiniwyd ef i'r ofalaeth gyntaf hon yng Nghapel Sardis ar Fedi yr ail, 1959. Bu yno hyd 1961, pan symudodd i'r Rhiwfawr a'r Gwryd, lle bu am bum mlynedd.

Ei ofalaethau nesaf oedd Hermon, Plasmarl, Abertawe, 1967 – 70; Tabernacl, Sgiwen, 1970 – 76; Hebron a Nebo, 1976, gan ychwanegu Bethesda, Llawhaden a Phisga, Llandysilio at yr ofalaeth ym 1984. Bu yno hyd 1990.


Ar Ebrill 29ain y flwyddyn honno, bu'n pregethu ar brawf yn yr ofalaeth hon, gan wasanaethu yn Esgairdawe yn yr hwyr. Yna, ar Fai 8fed, cynhaliwyd Pwyllgor Bugeiliol yn Soar, Llambed a gwelwyd bod eglwysi'r ofalaeth yn gytun ynglŷn â rhoi galwad iddo ddod i'w bugeilio. Cytunodd Hywel, ac ar Hydref 30ain, trefnwyd i gynnal y Cyfarfod Sefydlu yn Soar ar Ddydd Sadwrn, Ionawr 26ain, 1991.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig Athro Dr. Cyril Williams, un o ddiaconiaid Soar. Dyma enwau'r rhai a fu'n cymryd rhan:

| | |
|---|---|
| Galwad i Addoli | — Parchedig Jill H. Harries, Abertawe |
| Darllen | — Parchedig Alan R. Pickard, Ton-teg |
| Gweddi | — Parchedig Tom E. Evans, Aberhonddu |
| Hanes yr Alwad | — Cynghorydd Olifer Williams, Soar |
| Yr Arwyddion | — Dan ofal y Llywydd |
| Urdd Weddi | — Parchedig Ddr. Dewi Eirug Davies, Caerdydd |
| Pregeth | — Parchedig Alan H. John, Llansawel (Testun, Genesis 3:9, 'Ble'r wyt ti?') |
| Y Fendith | — Parchedig M. Llewelyn Jones, Siloh |

Cyflwynwyd y gweinidog newydd gan aelodau o eglwysi'r gynofalaeth, Cyfundeb Penfro ac Eglwysi'r Cylch. Croesawyd ef a'i briod gan Eric Williams, Bethel, ar ran aelodau'r pedair eglwys; y Parchedig Trefor Jones Morris, Llangeler ar ran Cyfundeb Aberteifi a'r Parchedig D.J. Goronwy Evans yn mynegi croeso Eglwysi'r Cylch. Cyhoeddwyd yr emynau gan y Parchedigion Tom T. Defis, Hen-dŷ-gwyn; Robin W. Samuel, Trelech; Tecwyn Ifan, Llandysilio; W.J. Gruffydd, Tregaron a'r fendith gan Tim Morgan, San Pedr.

Prynhawn drannoeth, cynhaliwyd oedfa anarferol ar yr achlysur hwn, sef cwrdd undebol i eglwysi'r ofalaeth yng Nghapel Soar, gyda'r gweinidog newydd yn llywyddu. Cymerwyd rhan gan aelodau'r pedair eglwys. Yn ogystal, bu Siân ap Gwynfor yn darllen cyfarchion oddi wrth ei phriod, y cynweinidog, y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor, a oedd ar y pryd, yn gwasanaethu yn y maes cenhadol yn Guyana. Ychwanegwyd at y dymuniadau da a'r croeso gan ei dad, Dr. Gwynfor Evans,



*Y Parchedig Hywel T. Jones*

Bethel. Yna, gwahoddwyd y gynulleidfa i gydgyfranogi o'r cymun sanctaidd. Teimlai pawb mai 'da oedd bod yno' ac y dylid cynnal cwrdd undebol yn achlysurol yn yr ofalaeth.

Yn fuan, sylweddolwyd fod gan Hywel ddawn arbennig i lunio pregeth. Os mai seiri coed oedd nifer helaeth o'i